**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 10 Ionawr 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, A.Thomas, C.Furlow-Harris, S.Curran a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

1. **DATGANIADAU O FUDD**

Cafwyd y datganiadau o fudd gan y Cynghorwyr canlynol ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S.Freeguard | Par: Y Gyllideb Ddrafft 2020/2021 i Ymgynghori arni, am ei bod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. |
| Y Cynghorydd S.Rahaman | Par: Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2020-2024, am ei fod yn gynrychiolydd awdurdod lleol ac yn Ysgrifennydd/Ymddiriedolwr Cymdeithas Gymunedol PDdLIE CNPT. |
| Y Cynghorydd A.N.Woolcock | Par: Y Gyllideb Ddrafft 2020/2021 i Ymgynghori arni, am ei fod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. |

2. **<u>DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA'R CABINET (ADRODDIADAU'R CABINET YN AMGAEEDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)</u>**

Craffodd y pwyllgor yr eitemau cabinet canlynol:

<u>Cyllideb Ddrafft 2020/2021 i Ymgynghori arni</u>

Ystyriodd y Cynghorwyr gyllideb ddrafft 2020/2021 cyn iddi fod yn destun ymgynghori.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam nad oedd cronfeydd ychwanegol wrth gefn o gyllideb y Cyngor yn cael eu defnyddio. Rhoddodd swyddogion drosolwg o’r sefyllfa bresennol o ran cronfeydd wrth gefn (rhai cyffredinol a rhai penodol), ac esboniwyd nad oedd unrhyw sicrwydd ynghylch faint o arian fyddai ar gael gan Lywodraeth Cymru ym mlynyddoedd y dyfodol, felly roedd yn gyfrifol ac yn ddoeth i gadw cronfeydd wrth gefn cyhyd â phosibl.

Trafodwyd y cynnig i gyflwyno 5% o gynnydd i’r Dreth Gyngor, yn ogystal â Chynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor, a oedd ar gael i aelwydydd dan anfantais ariannol ar draws Cymru. Nodwyd bod £244 miliwn ar gael ar draws Cymru - a £16 miliwn ohono wedi’i ddyrannu i Gastell-nedd Port Talbot, gyda 17,000 o bobl yn elwa ar y cynllun.

Cydnabu’r Cynghorwyr fod lefel y Dreth Gyngor yn faich sylweddol i rai pobl, ond nodwyd bod yn rhaid dod o hyd i £700,000 yn ychwanegol o rywle arall i lenwi’r bwlch yn y gyllideb am bob 1% a dynnwyd oddi ar y cynnydd arfaethedig i’r Dreth Gyngor.

Trafodwyd y canlynol:

- Grantiau i wasanaethau hamdden
- Strwythur a chyfnod yr ymgynghoriad
- Pensiynwyr a phraeseptau diffoddwyr tân

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid mor bwysig oedd hi i gynifer o bobl â phosibl ymateb i’r ymgynghoriad, yn yr amser fyddai ar gael.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi’r cynigion i’r cabinet eu hystyried.

<u>Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2020-2024</u>

Trafododd y Cynghorwyr yr adroddiad a ddosbarthwyd, gan gynnwys a oedd digon o sylw i drosedd casineb mewn digwyddiadau chwaraeon. Nodwyd y byddai'n cael ei gynnwys yn rhan o'r ymgynghoriad.

Mynegwyd pryder ynghylch 'aneglurder' y cyfeiriad yn yr adran yn yr adroddiad am effaith ar y cymoedd ("The draft equalities objectives, and the actions identified to deliver them, will be achieved against a backdrop of a reduced workforce alongside ongoing financial challenges"). Esboniodd swyddogion y byddai Asesiad Effaith Integredig llawn yn cael ei gynnal yn dilyn yr ymgynghoriad, ac yn cael ei ategu i iteriad nesaf y Cynllun.

Roedd y Cynghorwyr o'r farn y dylid cynnwys y gair 'parhau' lle y byddai angen yn y Cynllun drafft, er mwyn cydnabod bod rhai amcanion eisoes wedi'u hystyried yn y Cynllun blaenorol.

Nodwyd bod y Cynllun drafft yn ystyried beth oedd yn bosibl o fewn yr adnoddau a oedd ar gael i'r Cyngor ar hyn o bryd. Trafodwyd y broses ymgynghori, a'r dulliau i'w defnyddio wrth geisio denu ymatebwyr.

Trafodwyd bwlio – tuag at ddisgyblion ac athrawon fel ei gilydd, yn ogystal â'r ffordd caiff data ei gipio, a mecanweithiau adrodd.

Ar ôl craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i'r cabinet eu hystyried.

<u>Lansio'r Panel Dinasyddion</u>

Esboniodd swyddogion na fyddai'r Panel Dinasyddion yn disodli ymgynghoriadau ffurfiol a gynhelir gan y Cyngor. Byddai holiaduron yn cael eu ffurfio gan y tîm cyfathrebu a'u hanfon at grŵp cynrychioliadol yn ddemograffaidd o drigolion lleol, oddeutu 12 gwaith y flwyddyn gan gwmni ymchwil gymdeithasol annibynnol.

Nododd yr aelodau y byddai hyn yn ffordd gyflymach a mwy chwim o gasglu barn y cyhoedd. Gellid ceisio barn y cyhoedd am unrhyw beth oedd yn gysylltiedig ag ystod gwasanaethau'r Cyngor. Roedd swyddogion yn awyddus i bobl ifanc gael llais ar y Panel, yn ogystal â staff sy'n drigolion.

Ar ôl craffu, nodwyd yr adroddiad.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 19/20**

Nododd y pwyllgor y Flaenraglen waith ar gyfer 2019/2020.

**CADEIRYDD**